# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 29 Hydref 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sydd wedi'i wneud i sefydlu'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar wasanaethau eirioli i blant? (WAQ52658)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau darpariaeth eiriolaeth effeithiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Bydd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn bwrw golwg strategol ar wasanaethau eiriolaeth ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cyfrifoldebau allweddol y Bwrdd fel a ganlyn.

- Cynnal trosolwg strategol annibynnol o'r broses o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru a gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru yn unol â hynny.
- Rhoi cyngor ar y fframwaith rheoliadol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth gyda'r bwriad o sicrhau y darperir gwasanaethau eiriolaeth effeithiol i blant a phobl ifanc yng Nghymru
- Hyrwyddo arfer gorau yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth a nodi a datblygu'r sail dystiolaeth
- Cynghori Gweinidogion Cymru ar y trefniadau comisiynu ar gyfer eiriolaeth ar lefel genedlaethol a lleol a chyhoeddi barn ar drefniadau a wnaed gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc i gomisiynu a diogelu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth ar lefel leol a/ neu ranbarthol
- Cynghori Gweinidogion Cymru ar y fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth a'r gweithlu
- Cyhoeddi adroddiad cynnydd bob tair blynedd ar y broses o gyflenwi a gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

Mae'r broses o benodi'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol yn mynd rhagddi drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Rhagwelwn y bydd y bwrdd yn weithredol ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd, mewn pryd i gynghori ar y fanyleb ar gyfer y Llinell Gymorth Genedlaethol a chynghori ar gynlluniau ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth a gynigir gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu datganiad, fesul sir, am sut y caiff y cyllid ychwanegol ar gyfer gweithwyr trosglwyddo allweddol ei ddefnyddio a sut y mae pob sir yn cyflawni ei rhwymedigaethau? (WAQ52653)

**Jane Hutt:** Rwyf wedi clustnodi cyllid sy'n gwneud cyfanswm o £1.5 miliwn ar gyfer tair blynedd o 2008-09 i 2001/12 i helpu i ddatblygu fframwaith ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chefnogi nifer o swyddi gweithwyr pontio allweddol ychwanegol a fydd ar gael ledled Cymru. Ar ôl proses ceisiadau gystadleuol lle y cafwyd 17 o gynigion aml-asiantaeth, dyrannwyd cyllid ar sail prosiectau peilot i brosiectau ledled Cymru, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy.

Mae'r prosiectau'n amrywio o ran cynnwys a chyd-destun, ond aseswyd pob cynnig yn ofalus yn erbyn meini prawf penodol a oedd yn gofyn am dystiolaeth o:

- sut y byddai prosiectau yn nodi ac yn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc ag anableddau a'u teuluoedd/gofalwyr drwy ddarparu gweithwyr pontio allweddol;
- data llinell sylfaen ar nifer y bobl ifanc anabl sy'n nesáu at y cyfnod pontio neu wedi cyrraedd y cyfnod pontio 14-25 oed (rhagamcan ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf);
- sut y byddant yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc ag anableddau a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu dulliau gweithio allweddol yn ystod y cyfnod pontio;
- mesurau canlyniadau amlwg, yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, y Cod Ymarfer AAA a dangosyddion lleol eraill;
- sut y câi'r safonau gweithiwr allweddol eu cymhwyso fel dull meincnodi a monitro;

• yr angen i 'gydgysylltu'r' fenter Cymorth Cynnar gyda phontio er mwyn darparu model gweithiwr allweddol di-dor o 0-25 oed.

Caiff cynnydd y prosiectau peilot, yn ogystal â'r broses o ddatblygu'r fframwaith cymorth, ei reoli ar ein rhan gan Rwydwaith Cydgysylltu Gofal y DU, sefydliad rhwydweithio a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi gwaith allweddol â phlant anabl.

Rwy'n hyderus y bydd y gweithwyr allweddol ychwanegol y bydd pob prosiect yn eu darparu, ynghyd â fframwaith cymorth cadarn, yn sicrhau y bydd mwy o deuluoedd sydd â phlant ag AAA yn cael mynediad i wasanaethau gweithwyr allweddol o safon yn ystod y cyfnod pontio o ysgol i waith neu i addysg bellach.

Ym mis Mawrth 2009, byddaf yn cynnal cynhadledd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru/Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal y DU a fydd, yn ogystal ag adrodd ar gynnydd y prosiectau peilot, yn canolbwyntio ar egwyddorion darparu gwasanaeth gweithwyr pontio allweddol di-dor wrth ddod yn oedolion, gyda phwyslais ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r rhyngwyneb rhwng prosesau asesu plant ac oedolion.

Bydd y gynhadledd hefyd yn edrych ar ofynion hyfforddi/datblygu gweithlu gweithwyr pontio allweddol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cydlynu darpariaeth ac yn cynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag angen ychwanegol wrth drosglwyddo? (WAQ52654)

**Jane Hutt:** Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn rhoi canllawiau i ysgolion ac AALlau o ran cynllunio a darparu ar gyfer pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig drwy bob cyfnod allweddol yn yr ysgol ac wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol i addysg bellach neu gyflogaeth.

Yn dilyn argymhellion a wnaed yn rhan tri o adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes blaenorol o anghenion addysgol ychwanegol a ganolbwyntiodd yn benodol ar bontio, sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Pontio Allanol (ym mis Hydref 2007) i ystyried sut y gellir gwella'r broses o gynllunio pontio ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed.

Mae'r gwaith pwysig hwn yn cael ei ddatblygu gan Is-grŵp Proses Cynllunio Pontio a datblygwyd cynllun gweithredu uchelgeisiol. Mae cynllun yn cynnwys adolygiad o'r amrywiol ganllawiau a pholisïau sy'n gysylltiedig â chynllunio pontio gyda'r nod clir o ddod â'r cyfan ynghyd mewn ffordd symlach a mwy hygyrch a gaiff wedyn ei dosbarthu fel arfer da i bob asiantaeth berthnasol. Caiff pob grŵp rhanddeiliaid allweddol eu cynrychioli ar yr is-grŵp gan gynnwys rhieni a phobl ifanc a chaiff ei gadeirio ar y cyd gan rieni.

Cyn hir byddaf yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd pob un o 47 o rgymhellion adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes blaenorol i'r Pwyllgor Menter a Dysgu.

Fodd bynnag, mae'r angen am well cynllunio a chymorth aml-asiantaeth, cyd-gysylltiedig ar gyfer pobl ifanc yn y cofnod pontio penodol hwn hefyd yn nodwedd allweddol o adroddiadau allweddol eraill, yn cynnwys adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007) ac, yn fwy diweddar, ein hymgynghoriad cynhwysfawr ar opsiynau ar gyfer diwygio'r fframwaith asesiadau a datganiadau statudol.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** I ba raddau y mae disgyblion sydd ar 'gweithredu gan yr ysgol' a 'gweithredu gan yr ysgol a mwy' yn cael eu trin yn gydradd â'r rheini sydd â datganiad ar gyfer angen arbennig? (WAQ52655)

**Jane Hutt:** Nodir cymorth ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig ar hyn o bryd yn Neddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002). Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn rhoi canllawiau i ysgolion ac AALlau ar sut i ddiwallu anghenion pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig drwy ymateb graddedig.

Ar ôl sicrhau cymhwysedd cyfreithiol llawn ym maes AAA, a ehangwyd i gynnwys anghenion dysgu ychwanegol, ein nod nawr yw gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chymorth i bob plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, cyn gwneud unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, mae swyddogion wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad anffurfiol helaeth â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau gwirfoddol ar opsiynau ar gyfer diwygio'r fframwaith asesu statudol yng Nghymru.

Yn ddiweddar rydym wedi gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan AALlau i arwain pedwar prosiect peilot, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd y cynlluniau peilot yn cwmpasu'r pedwar maes canlynol: sicrhau ansawdd y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol; y model rhyngddisgyblaethol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion difrifol a chymhleth; y model ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol llai cymhleth (Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy) a rôl y cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol.

Y nod yw datblygu a threialu dulliau amgen i'r system asesu statudol bresennol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc y diwellir eu hanghenion drwy'r ymateb graddedig. Bydd y cynlluniau peilot yn datblygu'r syniadau a'r cysyniadau sy'n deillio o adroddiadau'r pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes blaenorol a'r ymgynghoriad diweddar ymhellach, tra'n parhau i feithrin ymddiriedaeth a chonsensws ymhlith rhieni, plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid allweddol eraill.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A yw'r £3.6m a ddyrennir ar gyfer Strategaeth Awtistiaeth Cymru y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato yn y Western Mail ar 15 Hydref yn arian newydd ac ychwanegol i'r £1.8m sydd eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer y Strategaeth ynghyd â'r £1.7m o'r Grant Cynnal Refeniw, ac, os felly, a wnaiff y Gweinidog ddatgan sut y caiff yr arian ychwanegol hwn ei wario? (WAQ52656)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Y ddarpariaeth gyfun a ddyrannwyd i'r Strategaeth Awtistiaeth yn y gyllideb yw'r £3.6 miliwn y cyfeirir ato, sef £1.8 miliwn ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2008-09 a 2009-10. Mae hyn yn ychwanegol i'r £1.7 miliwn cylchol yn y Setliad Refeniw Llywodraeth Leol.

Darparwyd cyllid ar gyfer 2008-09 i helpu awdurdodau lleol i fapio'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael ar draws pob darpariaeth statudol, gwirfoddol ac annibynnol a nodi unrhyw fylchau o ran gwasanaethau a sut y gellir mynd i'r afael â hwy. Bydd y broses o ddyrannu adnoddau ar gyfer 2009-10 yn amodol ar benderfynu ar flaenoriaethau'n seiliedig ar ganlyniad gwaith eleni.